



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

45/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

20/07/2020

Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion: Adroddiad dilynol

Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion:
Adroddiad dilynol

Awduron: Brett Duggan, Alison Glover a Tanwen Grover, Arad
Research

Adroddiad ymchwil llawn: Duggan, B., Glover, A., Grover, T.; (2020).
Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion: Adroddiad dilynol.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 45/2020
Ar gael yma: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-clwstwr-cyflenwi-mewn-ysgolion-adroddiad-dilynol>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd
yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â
Tîm Ymchwil Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 5103
E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Geirfa	2
1. Cyflwyniad	3
2. Methodoleg	6
3. Canfyddiadau	8
4. Casgliadau	24
Atodiad A: Offerynnau ymchwil	28

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Ffynonellau data ar gyfer yr adroddiad hwn: dulliau casglu data, grwpiau targed ac ymatebion.....	7
Tabl 3.1: Sut mae clystyrau'n mynd i'r afael ag anghenion cyflenwi nawr (data a gasglwyd Mawrth-Ebrill 2020).	9
Tabl 3.2: Rolau a chynlluniau cyfredol athrawon ychwanegol o fis Medi 2020	15
Tabl 3.3: Trosolwg o'r gymhariaeth gost o gyflenwi	22

Rhestr ffigurau

Ffigur 1.1: Trosolwg o'r Prosiect	3
Ffigur 3.1: Effaith ar glystyrau o beidio â pharhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn	12
Ffigur 3.2: Effaith ar athrawon ychwanegol	17

Geirfa


Acronym/Gair allweddol Diffiniad

ANG	Athro Newydd Gymhwyso
Arweinydd clwstwr	Pennaeth neu uwch-reolwr mewn ysgol sy'n gyfrifol am gydlynw gweithgarwch y Prosiect ar draws clwstwr.
Athro ychwanegol	Athro fel y bo'r angen a gyflogir gan un ysgol neu glwstwr o ysgolion i ddarparu gwasanaeth cyflenwi pan fydd athrawon yn absennol.
CA	Cynorthwydd Addysgu
CALU	Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch
CPA	(Amser) cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer athrawon
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
GCC	Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Gorffennaf 2018, comisiynwyd Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Prosiect Model Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion (y Prosiect). Darparodd Llywodraeth Cymru arian grant am ddwy flynedd i 18 o brosiectau peilot clwstwr mewn ysgolion ar draws 15 awdurdod lleol, fel y dangosir yn Ffigur 1.1. Nod y Prosiect oedd treialu dulliau gweithredu i gyflogi athrawon ychwanegol er mwyn cyflenwi ar gyfer absenoldebau (wedi'u cynllunio neu heb eu gynllunio). Roedd pob clwstwr yn cynnwys grŵp o ysgolion o fewn awdurdod lleol gydag un ysgol yn gweithredu fel ysgol arweiniol a phrif ddeiliad y grant ar gyfer y Prosiect. Rhoddwyd cyllid ar ffurf grant i glystyrau oedd yn talu 100 y cant o gostau'r Prosiect ar gyfer blwyddyn 1 o fis Medi 2017; yn ystod blwyddyn 2 (o fis Medi 2018), rhoddwyd cyllid ar ffurf grant i glystyrau am 75 y cant o'r costau. Nod arall y Prosiect oedd datblygu capasiti'r gweithlu drwy gyflogi athrawon a oedd wedi cymhwyso yn ddiweddar.

Ffigur 1.1: Trosolwg o'r Prosiect



- 1.2 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau a datblygiadau polisi wedi blaenoriaethu gwella darpariaeth ac ansawdd trefniadau cyflenwi athrawon yng Nghymru. Un o'r cynigion a gyflwynwyd oedd treialu model cydweithredol rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaeth athrawon cyflenwi, yn dilyn argymhelliad gan y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi.¹ Mae'r Fframwaith Athrawon

¹ Tasglu Model Cyflenwi (2017) [Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi, Adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg](#). t. 21.

Cyflenwi y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn weithredol ers Medi 2019,² ac mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r gweithlu³ yn cyflwyno gwybodaeth ar yr ymgyrch i sicrhau bod data yn cael ei ddefnyddio i yrru systemau cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys pwyslais ar les a llwyth gwaith athrawon. Ochr yn ochr â'r datblygiadau polisi ehangach hyn, mae hefyd yn bwysig nodi'r pwyslais cynyddol ar sicrhau cymorth priodol i ymarferwyr yn ystod cyfnod cynnar eu gyrfaedd.

1.3 Canlyniadau disgwyledig y Prosiect oedd:

- Gweithredu trefniadau amgen ac arloesol sy'n rhoi sylw i gyflenwi yn ystod absenoldebau mewn ysgolion (absenoldebau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio);
- Cynorthwyo Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n gweithio mewn rolau cyflenwi yn y tymor byr, o ran eu datblygiad proffesiynol a'u cadw;
- Cynorthwyo arbedion effeithlonrwydd, gan ddangos tystiolaeth o werth ychwanegol ac arbedion posibl i ysgolion;
- Hyrwyddo arfer gorau ym maes cydweithio a chydweithredu ar draws clystyrau ysgolion.

1.4 Cyflwynodd y prif adroddiad gwerthuso a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, asesiad cynhwysfawr o ddyluniad, gweithrediad a chanlyniadau'r Prosiect, gan nodi pwyntiau dysgu ar gyfer polisi ac arfer yn y maes hwn yn y dyfodol.⁴ Roedd canfyddiadau allweddol y prif adroddiad gwerthuso yn cynnwys y canlynol:

- Llwyddodd y Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion i alluogi ysgolion i **gydweithio i ddylunio a gweithredu ystod o drefniadau arloesol i fynd i'r afael ag absenoldeb athrawon**. Defnyddiwyd amser athrawon ychwanegol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys cyflenwi brys; cyflenwi yn ystod cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon; cefnogi ystod o brosiectau ar draws y clwstwr; trefnu gwersi dosbarth/pwnc rheolaidd a chynnal gwaith pontio.
- Mae'r Prosiect peilot wedi cefnogi **amrywiaeth o gyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon ychwanegol**. Darparwyd hyfforddiant i

² Llywodraeth Cymru (2019) [Athrawon Cyflenwi yng Nghymru](#).

³ Llywodraeth Cymru (2019) [Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019-21](#), p. 11.

⁴ Duggan, B., Glover, A., Grover, T. Feehan, A. (2019). [Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 50/2019.

fynd i'r afael â gofynion athrawon unigol ac i gefnogi targedau datblygu ysgol. Mae'r sgiliau, yr hyder a'r hyfedredd sydd gan athrawon yn cael eu datblygu ac maent yn elwa'n arbennig o'r profiad o addysgu ar draws gwahanol gyfnodau mewn amrywiaeth o ysgolion.

- Mae'r Prosiect peilot **wedi cefnogi nifer o athrawon ychwanegol i sicrhau swyddi parhaol**. Adroddodd athrawon ychwanegol eu bod wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach, gan eu rhoi mewn sefyllfa gryfach i ymgeisio am swyddi.
- **Mae'r Prosiect peilot wedi helpu i gryfhau a hyrwyddo cydweithio ar draws clystyrau**. Roedd ysgolion clwstwr wedi elwa drwy rannu dulliau addysgu a dysgu effeithiol.

1.5 Mae'r adroddiad dilynol byr hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ystod gwanwyn 2020, ac mae'n archwilio effaith tymor hwy y Prosiect, gan gynnwys newidiadau yn y ffordd y mae ysgolion yn mynd i'r afael â'u hanghenion cyflenwi ac effaith y rôl athro ychwanegol ar brofiadau athrawon o gyflogaeth. Cyflwynir dadansoddiad cost-effeithiolrwydd terfynol hefyd.

1.6 Mae'n bwysig nodi y cafodd y data ar gyfer yr adroddiad dilynol hwn ei gasglu yn ystod pandemig COVID-19. Er i'r ymchwilwyr ganfod bod llawer o ysgolion ac athrawon cyflenwi yn parhau i ymgysylltu ac yn barod i gyfrannu at yr ymchwil ddilynol, mae'n bosibl y gallai cau ysgolion fod wedi cael effaith negyddol ar gyfradd ymateb yr arolygon.

2. Methodoleg

- 2.1 Mabwysiadwyd methodoleg dulliau cymysg ar gyfer yr adroddiad dilynol hwn, gan gynnig cyfleoedd i bob clwstwr a phob athro ychwanegol i gyfrannu. Rhoddwyd cyfle i bob ysgol arweiniol a phob athro ychwanegol i gwblhau arolygon byr ar-lein yn ystod tymor y Gwanwyn 2020. Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr nodi a fyddent yn hapus i gael eu cyfweld ac fe'u gwahoddwyd i roi adborth ychwanegol drwy gyfweiliad ffôn. Mae'r holiaduron ar-lein a ddefnyddiwyd i'w gweld yn Atodiad A.
- 2.2 Ffocws yr arolwg i arweinwyr clwstwr oedd y ffordd yr oedd ysgolion wedi mynd i'r afael â'u hanghenion cyflenwi yn dilyn cyfnod y Prosiect a ariannwyd am ddwy flynedd a gwybodaeth am unrhyw rolau yr oedd eu hathrawon ychwanegol wedi'u llenwi. Gwahoddwyd sylwadau pellach ar effaith y Prosiect ar staff, dysgwyr a'r ysgol. Darparodd athrawon ychwanegol wybodaeth am eu sefyllfa bresennol o ran cyflogaeth, ynghyd â myfyrdodau ar yr effaith a gafodd y Prosiect ar eu datblygiad proffesiynol a'u cyfleoedd gyrfa. Gan fod Fframwaith Athrawon Cyflenwi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2019, gofynnwyd i arweinwyr clystyrau ac athrawon ychwanegol hefyd am eu hymgysylltiad ag asiantaethau a gofrestrwyd ar y Fframwaith. Roedd y cyfweiliadau'n gyfle i esbonio'u profiadau o'r Prosiect, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith cau ysgolion yn sgil pandemig COVID-19.
- 2.3 Er i'r broses gasglu data ar gyfer yr adroddiad dilynol hwn ddigwydd yn ystod pandemig COVID-19 rhwng mis Mawrth ac Ebrill 2020, penderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r dull gan fod y gofynion ar arweinwyr clwstwr ac athrawon ychwanegol wrth lenwi arolygon byr 10-munud ar-lein yn gymharol ysgafn. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod cau ysgolion a'r ffaith fod cyllid y Prosiect yn dod i ben yn Awst 2019 wedi cael effaith negyddol ar y gyfradd ymateb. Mae tabl 2.1. yn cynnig trosolwg o'r dulliau casglu data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys y niferoedd a wahoddwyd i gyfrannu, a'r ymatebion a dderbyniwyd. Roedd y 25 athro ychwanegol a gyfwelewyd yng Ngwanwyn 2019 wedi rhoi eu caniatâd i gael eu hail-gysylltu yn 2020. Cysylltwyd â'r athrawon ychwanegol a oedd yn weddill drwy eu harweinwyr clwstwr. Yn achos nifer o'r athrawon hyn, roedd eu cyswllt gyda'r clwstwr wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2019, ffactor a allai fod wedi cael effaith negyddol ar y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg ar-lein. Serch hynny, cafwyd cyfraniadau gan 14 o'r 18 clwstwr, naill ai gan arweinydd y clwstwr neu gan athrawon ychwanegol.

Tabl 2.1: Ffynonellau data ar gyfer yr adroddiad hwn: dulliau casglu data, grwpiau targed ac ymatebion

Dull casglu data	Grŵp targed	Poblogaeth	Ymateb
Arolwg ar-lein	Arweinwyr clwstwr	18	9
Arolwg ar-lein	Athrawon ychwanegol	47	12 (o 8 clwstwr)
Cyfweliadau dilynol ag athrawon ychwanegol	Athrawon ychwanegol	6 (cydsyniwyd i ail-gysylltu yn yr arolwg ar-lein)	4

2.4 Fel rhan o'r Prosiect roedd gofyn i bob clwstwr gyflwyno chwe ffurflen fonitro i Lywodraeth Cymru. Ar yr adeg pan ysgrifennwyd yr adroddiad gwerthuso llawn, pump o'r ffurflenni hawlio monitro yn unig oedd wedi eu cyflwyno gan bob clwstwr. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data o'r set llawn o chwe ffurflen fonitro gan bob un o'r 18 clwstwr ac mae'n dod i gasgliadau ar gost-ffeithiolrwydd y Prosiect. Mae hyn yn deillio o gyfanswm y diwrnodau a gyflenwyd gan athrawon ychwanegol yn ystod y Prosiect, gan gyfrifo cost y ddarpariaeth hon pe bai wedi'i darparu drwy gyfrwng asiantaeth gyflenwi. Er mwyn cwblhau'r amcangyfrif hwn, cyfrifwyd y gost gyflenwi ddyddiol gyfartalog ar gyfer y gwasanaeth cyflenwi gan asiantaeth a ddefnyddiwyd gan y clystyrau fu'n rhan o'r Prosiect (gweler Adran 3).

2.5 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys canfyddiadau ar y canlynol:

- Dulliau cyfredol a ddefnyddir gan glystyrau ar gyfer cyflenwi;
- Y traweffaith ar glystyrau o barhau neu beidio â pharhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn;
- Arferion clwstwr effeithiol a gyflwynwyd yn ystod y Prosiect;
- Rolau cyfredol athrawon ychwanegol a'u bwriadau yn y dyfodol;
- Traweffaith y Prosiect ar athrawon ychwanegol.

3. Canfyddiadau

Y dulliau cyflenwi a ddefnyddir gan glystyrau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

Canfyddiadau allweddol

- Nododd dau o'r naw o arweinwyr clwstwr a ymatebodd i'r arolwg bod eu hysgolion wedi parhau gyda'r Prosiect yn ystod y drydedd flwyddyn. Nododd y ddau o'r arweinwyr clwstwr hyn hefyd eu bod yn bwriadu parhau â'r Prosiect mewn rhyw ffurf o Fedi 2020.
- Nododd clystyrau mai rhwystrau ariannol oedd y prif reswm am beidio â pharhau â'r Prosiect.
- Nododd yr holl arweinwyr clwstwr bod eu hanghenion cyflenwi yn cael eu diwallu o amrywiaeth o ffynonellau.
- Dywedodd tri o arweinwyr clystyrau bod eu dull o fynd i'r afael ag anghenion cyflenwi wedi newid o ganlyniad i'r Prosiect.

- 3.1 Cafwyd ymatebion i'r arolwg gan naw o arweinwyr clwstwr, gyda dau o'r rhain yn parhau gyda'r Prosiect yn ystod y drydedd flwyddyn (o Fedi 2019). Mae'r cyllid ar gyfer y Prosiect yn y clystyrau hyn wedi'i ddarparu'n gyfan gwbl gan yr awdurdod lleol yn achos un clwstwr, ac mae'n cael ei ariannu gan gyllidebau ysgolion yn y clwstwr arall. Mae'r dull o reoli a gweithredu'r Prosiect wedi newid rhywfaint ers mis Medi 2020 yn achos un o'r clystyrau: tra bod yr athro ychwanegol wedi cael ei leoli mewn ysgolion unigol am floc o amser yn flaenorol, newidiodd y model a rhannwyd amser yr athro rhwng ysgolion am nifer cytunedig o ddiwrnodau bob wythnos.
- 3.2 Adroddodd pump o'r saith clwstwr na wnaeth barhau â'r Prosiect mai 'diffyg arian yng nghyllideb yr ysgol' oedd y rheswm am hyn. Fodd bynnag, adroddwyd bod dau o'r clystyrau hyn yn cyflogi athrawon ychwanegol mewn rolau cyflenwi yn ysgol arweiniol y clwstwr ar gytundebau tymor penodol. Adroddodd arweinydd clwstwr arall fod athrawon yn cael eu cyflogi mewn rolau cyflenwi ar gytundebau parhaol mewn ysgolion clwstwr eraill a dywedodd dau arweinydd clwstwr arall nad oedd eu hathrawon ychwanegol bellach mewn swyddi cyflenwi ond eu bod wedi'u cyflogi fel athrawon pwnc/blwyddyn. Mae cyllid ar gyfer y rolau hyn yn dod o gyllidebau craidd ysgolion.

- 3.3 Dywedodd arweinwyr dau o'r clystyrau eu bod wedi gobeithio parhau â'r Prosiect ar ryw ffurf o fis Medi 2020, gydag un, o bosibl, yn ariannu cynorthwydd addysgu lefel uwch 'fel bod y Prosiect yn gadael gwaddol'; roedd y clwstwr arall hefyd yn bwriadu ailgychwyn y Prosiect o fis Medi 2020 (ond mae'n bosibl y bydd cau ysgolion a'r ansicrwydd yn y dyfodol effeithio ar hyn).
- 3.4 Nododd pob clwstwr, gan gynnwys y rhai a barhaodd gyda'r Prosiect, eu bod yn mynd i'r afael â'u hanghenion cyflenwi gan ddefnyddio ystod o dulliau. Mae Tabl 3.1 yn cyflwyno'r manylion ar gyfer hyn.

Tabl 3.1: Sut mae clystyrau'n mynd i'r afael ag anghenion cyflenwi nawr (data a gasglwyd Mawrth-Ebrill 2020).

Dull cyflenwi cyflenwad	Bob amser	Weithiau	Yn achlysurol	Anaml	Byth	Cyfanswm
Athrawon cyflenwi drwy Fframwaith GCC	2	4	2		1	9
Athrawon cyflenwi drwy asiantaeth nad yw'n rhan o Fframwaith GCC	1	3	2		2	8
Cynorthwywyr Dosbarth neu Oruchwylwyr Gorchudd Asiantaeth	1	7	1			9
Athrawon cyflenwi yn gyflogedig gan yr ysgol	1	2		1	4	8
Athrawon eraill a gyflogir yn yr ysgol		5		1	3	9
Cynorthwywyr Addysgu a gyflogir yn yr ysgol		6		1	2	9
Uwch reolwyr / pennaeth ysgol		7			2	9

Ffynhonnell: Arolwg arweiniol clwstwr, n = 9 (GCC - Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol)

- 3.5 Dengys Tabl 3.1 fod bron pob clwstwr wedi nodi eu bod yn defnyddio ystod o ffynonellau i ddiwallu eu hanghenion cyflenwi cyfredol. Nododd wyth o'r naw clwstwr eu bod yn ymgysylltu â Fframwaith Athrawon Cyflenwi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ond yn amrywio o safbwynt amllder defnydd y Fframwaith.
- 3.6 Y dulliau mwyaf cyffredin o gyflenwi a nodwyd gan glystyrau oedd defnyddio cynorthwywyr addysgu drwy asiantaethau, defnyddio cynorthwywyr addysgu sy'n gyflogedig gan yr ysgol a defnyddio uwch reolwyr/pennaethiaid ysgolion am rai o'r

amser. Nododd pedwar clwstwr eu bod wedi defnyddio eu hathrawon cyflogedig eu hunain, ond eto gyda gwahanol raddau o amllder.

- 3.7 Dywedodd tri o arweinwyr y clwstwr fod eu dull o reoli anghenion cyflenwi wedi newid o ganlyniad i gymryd rhan yn y Prosiect. Dywedodd un ei fod yn edrych ar fodel tebyg er mwyn 'lleihau costau asiantaethau', tra nododd arall eu bod bellach yn deall pwysigrwydd 'defnyddio athrawon sy'n medru gweithio ar draws cyfnodau addysg'. Nododd trydydd clwstwr eu bod wedi addasu eu dull o weithredu drwy sicrhau eu bod yn defnyddio athrawon o blith aelodau staff presennol yr ysgol.

"Gallwn weld y fantais o ddefnyddio unigolion ar gyfer cyflenwi sy'n hysbys i'r plant. Felly rydym yn defnyddio cynorthwyr lefel uwch a chynorthwyr o'r ysgol ar gyfer cyflenwi yn fwy aml ac mae'r pennaeth hefyd yn cyflenwi nifer o absenoldebau." (Ymateb i'r arolwg, arweinydd clwstwr) [Cyfieithiad o sylw yn Saesneg yn wreiddiol]

Newidiadau i reolaeth a threfniant cyflenwi ers Medi 2020

- 3.8 Dywedodd tri o arweinwyr y clystyrau y byddant yn newid eu dull cyflenwi ar gyfer mis Medi 2020. Y dulliau gweithredu a gafodd eu crybwyll oedd:
- Cyflogi dwy swydd CALU er mwyn cyflenwi ar draws ysgol 3-16;
 - Cyflogi athrawon ychwanegol;
 - Datblygu dull ar draws y clwstwr lle mae athrawon ar gael i'w defnyddio ar gyfer tasgau gwella ysgolion, gyda'r angen am athrawon cyflenwi yn cael ei leihau drwy dasgau cydweithredol a chynllunio ar y cyd.

Y traweffaith ar glystyrau o barhau neu beidio â pharhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn

Canfyddiadau allweddol

- Nododd y ddau glwstwr a barhaodd am y drydedd flwyddyn effeithiau gadarnhaol sylweddol, gan gynnwys ar ansawdd yr addysgu, ar rannu arferion effeithiol ac ymddygiad dysgwyr.
- Adroddodd chwech o'r saith clwstwr nad oeddent yn parhau am y drydedd flwyddyn effaith negyddol ar lwyth gwaith a lles y staff.
- Adroddodd pedwar o'r saith clwstwr nad oeddent yn parhau am y drydedd flwyddyn draweffaith negyddol ar effeithlonrwydd o ran cost ac amser rheoli, addysgu effeithiol a rhannu arferion, a chyfleoedd ar gyfer hyfforddi athrawon.

Parhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn

- 3.9 Ymysg yr arweinwyr clwstwr a ymatebodd i'r arolwg, dau yn unig a nododd fod y Prosiect wedi parhau am y drydedd flwyddyn. Roedd y traweffeithiau a welwyd gan y ddau arweinydd clwstwr yn ystod yr amser hwn yn cynnwys traweffaith gadarnhaol sylweddol ar ddarpariaeth, ar rannu arferion effeithiol ac ar ymddygiad dysgwyr. Nododd un clwstwr hefyd effaith gadarnhaol sylweddol o ran rheoli amser a gwell effeithlonrwydd, cyfleoedd ar gyfer hyfforddi athrawon, llwyth gwaith staff a lles. Dywedodd clwstwr arall na fu unrhyw effeithiau mewn perthynas â'r materion hyn yn ystod y drydedd flwyddyn. O ran effeithlonrwydd costau, nododd un clwstwr rywfaint o effaith gadarnhaol ond nododd y llall nad oedd unrhyw effaith.

Peidio â pharhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn

- 3.10 Mewn cyferbyniad, dangosir yr effaith ar gyfer y saith clwstwr na wnaeth barhau â'r Prosiect i'r drydedd flwyddyn yn Ffigur 3.1.

Ffigur 3.1: Effaith ar glystyrau o beidio â pharhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn

Effaith		Ymateb	
£	Effeithlonrwydd cost	 	    
	Effeithlonrwydd yn yr amser rheoli		     
✓	Addysgu effeithiol	  	   
	Rhannu arferion addysgu effeithiol	  	   
	Ymddygiad dysgwr		     
	Cyfleoedd ar gyfer hyfforddi athrawon	  	   
	Llwyth gwaith staff a llesiant		      
Allwedd:	 Rhywfaint o effaith gadarnhaol	 Dim effaith	
	 Rhywfaint o effaith negyddol	 Effaith negyddol sylweddol	

Ffynhonnell: Arolwg arweinwyr clwstwr, n=7.

- 3.11 Ar y cyfan, nododd arweinwyr clwstwr draweffeithiau negyddol o ganlyniad i beidio â pharhau â'r Prosiect, ac mewn rhai achosion effaith negyddol sylweddol ar lwyth gwaith a lles staff. Nododd arweinydd un clwstwr ei bod wedi bod yn bosibl cyflenwi ar gyfer staff addysgu yn ystod y Prosiect a bod hyn wedi galluogi lleihau llwyth

gwaith yr athrawon hynny, ac o ganlyniad wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Adroddwyd hefyd bod y broses o rannu arferion effeithiol a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant athrawon wedi cael effaith negyddol ers i'r elfen a ariannwyd ddod i ben, gydag un arweinydd clwstwr yn egluro bod amser digyswllt i reolwyr ac athrawon wedi cael ei effeithio'n sylweddol heb fod yr athrawon ychwanegol ar gael. O ganlyniad 'nid yw hyfforddiant ac ymchwil wedi digwydd mor aml â phan gyflogwyd yr athro ychwanegol'.

- 3.12 Adroddodd arweinydd clwstwr arall effeithiau cymysg o ganlyniad i beidio â pharhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn.

“Collwyd dilyniant yn yr ystafell ddosbarth a dealltwriaeth o [yr ysgol]. Fodd bynnag, mae cwblhau'r ffurflenni hawlio wedi rhyddhau peth amser o safbwynt rheoli.” (Ymateb i'r arolwg gan arweinydd clwstwr) [Cyfieithiad o sylw yn Saesneg yn wreiddiol]

Arferion clwstwr effeithiol o gyflwynwyd yn ystod y Prosiect

Canfyddiadau allweddol

- Mae'r gwaith cydweithredol rhwng ysgolion clwstwr a gryfhawyd yn ystod y Prosiect wedi cael ei gynnal.
- Adroddodd arweinwyr clwstwr bod arferion eraill wedi parhau, gan gynnwys rhannu staff ac arfer da o fewn clystyrau.

- 3.13 Darparodd wyth o arweinwyr clwstwr wybodaeth am arferion effeithiol a gyflwynwyd yn ystod y Prosiect yr oedd ysgolion unigol neu'r clwstwr wedi'u cynnal ar ôl i'r elfen o'r Prosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ddod i ben.
- 3.14 Cydweithio oedd yr arfer a grybwyllwyd amlaf gan arweinwyr clwstwr, gyda rhai yn adrodd bod hyn wedi cynyddu wrth i ysgolion weithio ar brosiectau clwstwr gyda'i gilydd. Nododd arweinydd un clwstwr fod 'gweithio traws-gyfnod a threfniadau pontio mwy effeithiol' wedi'u cyflwyno yn ystod y Prosiect. Nododd gyfrannwr arall bod yr ei ysgol wedi parhau i gydweithio gydag ysgolion yn y ffordd a sefydlwyd yn ystod y Prosiect, gan gynnwys drwy rannu swyddog presenoldeb ar draws eu clwstwr. Roedd rhannu adnoddau ac ymwybyddiaeth o'r arfer da a oedd yn digwydd mewn ysgolion o fewn y clwstwr wedi gweithio'n 'eithriadol o dda' yn ôl un arweinydd clwstwr. O ganlyniad i'r ffaith nad yw'r Prosiect wedi'i barhau, nododd yr arweinydd hwn bod 'ysgolion yn gweithio ar wahân unwaith eto'.

Profiadau arweinwyr clwstwr

- 3.15 Darparodd pedwar o arweinwyr clwstwr sylwadau pellach ar eu profiad o'r Prosiect. Awgrymwyd y byddai ymgysylltu â phrifysgolion a darparwyr addysg yn hwyluso'r broses o ddatblygu cronfa o athrawon newydd gymhwyso a allai helpu wrth recriwtio i unrhyw brosiectau tebyg yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth mae angen i ANG sicrhau cyfnod penodedig o addysgu.
- 3.16 Awgrymwyd hefyd y byddai gwell dealltwriaeth o gostau cyflenwi pob ysgol yn fuddiol, gyda system yn cael ei chyflwyno 'i gefnogi cydweithio er mwyn lleihau'r angen am gyflenwi, a phrosesau gwerthuso gwell i ddeall cost-effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd'.

Rolau cyfredol athrawon ychwanegol a'u bwriadau ar gyfer y dyfodol

Canfyddiadau allweddol

- Mae 11 allan o'r 12 o athrawon ychwanegol a atebodd yr arolwg wedi'u cyflogi ers Medi 2019 naill ai fel athrawon ychwanegol yn eu clystyrau gwreiddiol neu mewn swyddi addysgu eraill o fewn y clwstwr neu'r tu allan iddo. Nid yw un yn gweithio fel athro bellach.
- Mae'r 11 athro ychwanegol yn disgwyl cael eu cyflogi mewn rôl gyflenwi neu fel athro amser llawn o fis Medi 2020.
- Mae eu rolau a'u cytundebau presennol ac arfaethedig yn amrywio, gan gynnwys rolau parhaol amser llawn, rolau cyfnod penodol a rolau cyflenwi drwy asiantaethau.

- 3.17 Darparodd yr athrawon ychwanegol a ymatebodd i'r arolwg wybodaeth am y rolau y maent wedi bod yn gweithio ynddynt ers mis Medi 2019, yn ogystal â'u cynlluniau ar gyfer mis Medi 2020 ymlaen. Mae bron pob un wedi parhau i weithio mewn rôl addysgu, er bod eu cytundebau a'u rolau'n amrywio. Mae Tabl 3.2 yn crynhoi'r rolau a'r cynlluniau presennol a adroddwyd gan yr athrawon ychwanegol hyn.

Tabl 3.2: Rolau a chynlluniau cyfredol athrawon ychwanegol o fis Medi 2020

Rolau ers mis Medi 2019	Manylion y rolau ers mis Medi 2019	Cynlluniau o fis Medi 2020
Parhau i gael eu cyflogi fel athro ychwanegol yn yr un clwstwr 	Mae gan bob un o'r pump gytundebau amser llawn, tymor penodol yn yr un clwstwr. Gweithiodd un dros dro fel athro cyflenwi gydag asiantaeth allanol rhwng Medi-Rhagfyr 2019.	Mae dau yn bwriadu gweithio fel athrawon cyflenwi dyddiol gydag asiantaeth; nid yw un yn credu y bydd yn cael ei gyflogi fel athro (oni bai ei fod yn dod o hyd i rôl llawn amser); mae'r ddau olaf yn cynllunio ar gyfer cael eu cyflogi mewn rôl addysgu barhaol yn yr un clwstwr.
Wedi'u cyflogi mewn rôl addysgu yn yr un clwstwr 	Mae gan y cyntaf gytundeb addysgu penagored ar sail 0.92 o amser llawn; mae gan yr ail gytundeb amser llawn, tymor penodol; ac mae gan y trydydd gytundeb parhaol amser llawn.	Mae pob un yn bwriadu parhau i gael eu cyflogi drwy eu cytundebau cyfredol, er bod yr ail athro yn gobeithio y bydd ei gytundeb yn trosglwyddo i fod yn barhaol.
Wedi'u cyflogi mewn rôl addysgu y tu allan i'r clwstwr 	Mae gan y cyntaf gytundeb cyflenwi dros gyfnod mamolaeth; mae gan yr ail gytundeb llawn amser, parhaol yn dysgu y tu allan i Gymru; ac enillodd y trydydd gytundeb parhaol, amser llawn yn y clwstwr i ddechrau, cyn symud y tu allan i Gymru a chymryd cytundeb tymor penodol.	Mae'r cyntaf yn bwriadu parhau â'i gytundeb cyflenwi mamolaeth; mae'r ail yn bwriadu parhau â'i gytundeb parhaol amser llawn; ac nid yw'r trydydd yn gwybod eto beth yw eu cynlluniau.
Ddim yn gweithio mewn rôl addysgu bellach 	Dewisodd yr athro hwn adael y proffesiwn a chymryd rôl nad yw'n addysgu y tu allan i Gymru.	Ddim yn sicr ond bydd yr unigolyn, o bosibl, yn cofrestru gydag asiantaeth gyflenwi os na allant barhau â'r rôl gyfredol.

Ffynhonnell: Arolwg athrawon ychwanegol, n=12.



= un athro ychwanegol.

Traweffeithiau'r Prosiect ar athrawon ychwanegol

Canfyddiadau allweddol

- Roedd bron pob athro ychwanegol yn teimlo y bu effaith gadarnhaol ar eu hyder, eu hymarfer addysgu a chyfleoedd dysgu proffesiynol.
- Nododd y mwyafrif hefyd effaith gadarnhaol ar eu datblygiad a chyfleoedd gyrfa, er bod dau yn teimlo na fu unrhyw effaith yn y maes hwn.
- Nododd wyth athro ychwanegol ffyrdd eraill y cafodd y Prosiect effaith, gan gynnwys: gwella eu lles personol; cynnig profiad o weithio ar draws gwahanol leoliadau a datblygu eu parodrwydd i wneud hynny; magu perthynas dda gyda chydweithwyr; mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dod o hyd i ysgol sy'n addas iddynt; a chynnig cyfleoedd dysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc.

- 3.18 Roedd yr athrawon ychwanegol a ymatebodd i'r arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr effaith yr oedd eu hamser fel athro/athrawes ychwanegol wedi'i gael arnyn nhw a'u gyrfa fel addysgwyr. Roedd bron pob un yn teimlo y bu effaith gadarnhaol ar eu hyder, eu hymarfer a chyfleoedd dysgu proffesiynol (er bod dau wedi nodi dim effaith ar eu harfer addysgu na chyfleoedd dysgu proffesiynol a nododd un effaith negyddol ar eu hyder). Soniodd y mwyafrif hefyd am effaith gadarnhaol ar ddilyniant a chyfleoedd gyrfa, er bod dau wedi nodi na fu unrhyw effaith ar y maes hwn. Dangosir effaith y Prosiect ar yr athrawon ychwanegol yn Ffigur 3.2.

Ffigur 3.2: Effaith ar athrawon ychwanegol

Effaith		Ymateb							
	Hyder								
									
	Ymarfer addysgu								
									
	Cyfleoedd dysgu proffesiynol (gan gynnwys anwytho)								
									
	Dilyniant a chyfleoedd gyrfa								
									
	Arall								
									
Allwedd:		Effaith gadarnhaol sylweddol					Rhywfaint o effaith gadarnhaol		
		Dim effaith					Rhywfaint o effaith negyddol		

Ffynhonnell: Arolwg athrawon ychwanegol, n = 12.

3.19 Yn ogystal, nododd wyth athro ychwanegol ffyrdd eraill y cafodd y Prosiect effaith arnyn nhw a'u hymarfer addysgu. Roedd yr effeithiau a nodwyd ganddynt yn amrywiol ac yn cynnwys:

- Gwelliannau i'w lles personol o ganlyniad i swydd ddiogel a rheolaeth linell gadarnhaol;
- Mwy o brofiad a pharodrwydd i weithio ar draws gwahanol ysgolion, grwpiau blwyddyn, elfennau o'r cwricwlwm newydd a gweithgareddau allgyrsiol;

- Perthynas dda gyda chydweithwyr;
- Gwerthfawrogiad o bwysigrwydd dod o hyd i ysgol sy'n addas iddynt; a
- Cyfleoedd dysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc.

“Datblygais berthynas weithiol gyda ystod eang o bobl, yn broffesiynol ac fel arall. Hefyd roedd yr amrywiaeth o brofiad estynedig mewn gwahanol leoliadau yn adlewyrchu profiadau gyrfa pobl eraill.” (Ymateb i'r arolwg, arweinydd clwstwr)
[Cyfieithiad o sylw yn Saesneg yn wreiddiol]

Profiadau fel athro ychwanegol

Canfyddiadau allweddol

- Pwysleisiodd saith o'r deuddeg athro ychwanegol a ymatebodd i'r arolwg yr ystod werthfawr o brofiadau a gawsant drwy'r Prosiect.
- Agweddau eraill ar y Prosiect yr oedd athrawon yn eu canmol oedd y fantais o adeiladu perthnasoedd proffesiynol, cydweithio, a'r cysondeb a roddwyd gan y Prosiect iddynt hwy ac ar gyfer dysgwyr.
- Nododd athrawon ychwanegol eu bod wedi wynebu rhai heriau, gan gynnwys ysgolion nad oeddent yn gwneud y defnydd gorau o'u rôl a'r disgwyliadau gwahanol sydd gan ysgolion.

3.20 Mynegodd athrawon ychwanegol farn ar ba elfennau o'r Prosiect oedd wedi gweithio'n dda. Pwysleisiodd saith o'r athrawon ychwanegol yr ystod werthfawr o brofiad yr oedd y Prosiect wedi ei gynnig ar draws gwahanol ysgolion, cyfnodau allweddol a meysydd pwnc, yn ogystal â phrofiad o wahanol ddulliau addysgu. Nododd tri athro y manteision wrth ddod i adnabod a meithrin perthynas ag ysgolion, disgyblion a dysgwyr, yn ogystal â chydweithio ag athrawon eraill. Cyfeiriodd tri o ymatebwyr at fanteision y cysondeb a'r dilyniant a ddarparodd y Prosiect iddynt hwy ac i ddysgwyr. Cyfeiriodd dau arall hefyd at: y cymorth a gawsant i gwblhau eu blwyddyn ANG; trefniadaeth y Prosiect; y cyfleoedd DPP a oedd ar gael iddynt; y sgiliau a'r proffesiynoldeb yr oeddent wedi eu datblygu; a'r ysbrydoliaeth a gawsant ar gyfer addysgu.

“Roedd cael yr un athrawon yn cyflenwi yn dda i ddisgyblion gan eu bod yn gyfarwydd â'r un person ac yn dda wrth gynllunio o flaen llaw. Dwi byth wedi gwneud cyflenwi trwy asiantaeth ond yn deall ei fod yn gallu fod yn anodd gyda'r

ansicrwydd. Roedd hyn yn gwbl wahanol ac yn drefnus i bawb.” (Ymateb i'r arolwg, arweinydd clwstwr)

- 3.21 Nododd athrawon ychwanegol hefyd heriau yr oeddent wedi'u hwynebu yn y rôl. Soniodd pump nad oedd ysgolion, o bryd i'w gilydd, yn gwneud y defnydd gorau o rôl athrawon ychwanegol, er enghraifft drwy ddiffyg trefn wrth gynllunio sut i ddefnyddio'u hamser yn y ffordd orau, gan eu defnyddio mewn ffordd debyg i staff cyflenwi asiantaethau allanol neu drwy beidio â rhoi digon o barch i'r rôl. Cyfeiriodd nifer fach o athrawon ychwanegol hefyd at y canlynol: bod amgylchiadau mewn ysgolion yn amrywiol ac yn anos mewn rhai nag eraill (er enghraifft lle'r oedd heriau arweinyddiaeth); bod rhai materion ymarferol wedi codi, yn gyffredin i unrhyw rôl gyflenwi, megis teithio rhwng ysgolion, materion diogelwch a mynediad; ac ar y cychwyn roeddent yn ei chael hi'n anodd addasu i wahanol ddisgwyliadau a strwythurau pob ysgol. Roedd un athro wedi ei chael hi'n anodd addysgu mewn cyd-destun lle nad oedd ganddo ei ddosbarth ei hun i ofalu amdano.

‘Mae cyfathrebu o fewn ysgolion yn her weithiau ac rwy'n aml yn cael fy ngosod mewn dosbarth yn fuan iawn cyn i'r diwrnod ddechrau. Nid yw hyn yn gadael llawer o amser i mi ddarllen a dod i ddeall yr hyn yr wyf yn ei addysgu.’ (Ymateb i'r arolwg, arweinydd clwstwr) [Cyfieithiad o sylw yn Saesneg yn wreiddiol]

- 3.22 Awgrymodd chwe athro ychwanegol welliannau i unrhyw brosiectau tebyg yn y dyfodol sy'n mynd i'r afael ag anghenion cyflenwi. Cynigiodd dri sylwadau ar yr angen i wella'r ffordd o ddefnyddio athrawon ychwanegol, gan nodi'r angen i sicrhau bod eu hamser yn cael ei drefnu'n effeithiol. Ymhlith yr awgrymiadau roedd: sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u rolau; sefydlu calendrau ar y cyd rhwng ysgolion er mwyn rheoli'r dull o ddyrannu athrawon ychwanegol mewn ffordd deg a thryloyw; sicrhau bod athrawon ychwanegol yn cael eu defnyddio'n strategol ac mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu meysydd pwnc neu arbenigedd; a sicrhau bod ysgolion yn gwbl barod i'w derbyn a'u croesawu. Awgrymodd dau o athrawon ychwanegol y gallai cyfnod hirach mewn llai o ysgolion fod o fudd, i ddod yn fwy cyfarwydd â systemau, dysgwyr a chydweithwyr. Nododd athro arall yr angen i sicrhau bod cymorth addas ar gael i athrawon newydd gymhwyso.

Sylwadau ychwanegol ar effaith cau ysgolion ar athrawon ychwanegol a'u cynlluniau ar gyfer Medi 2020

- 3.23 Cafwyd cyfle yn ystod y cyfweiliadau dilynol gyda phedwar athro ychwanegol ym mis Ebrill 2020 i archwilio effeithiau cau ysgolion ar sut yr oedd athrawon ychwanegol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'u cynlluniau ar gyfer Medi 2020 ymlaen. Rhoddodd cyfweiliadau hyn rhyw syniad o effeithiau byrdymor y pandemig ar sampl gyfyngedig iawn o athrawon cyflenwi. Mae'n bwysig nodi, yng ngoleuni maint bach y sampl, y dylid ystyried y sylwadau hyn fel enghreifftiau yn unig o brofiadau a safbwyntiau'r athrawon dan sylw, ac nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn ehangach athrawon cyflenwi fu'n ymwneud â'r Prosiect.

Effeithiau ar rolau athrawon ychwanegol a'r defnydd o'u hamser

- 3.24 Dywedodd yr athrawon a gyfwelwyd fod y pandemig wedi 'effeithio ar lefel eu gweithgarwch', er eu bod hefyd yn cyfaddef bod hyn yn wir am lawer o athrawon profiadol. Roedd athrawon ychwanegol hefyd yn teimlo bod y pandemig wedi creu ansicrwydd ynghylch eu rolau a'r hyn a ddisgwyliid ganddynt. Nododd athrawon eu bod wedi derbyn ystod o dasgau, yn cynnwys: trefnu gweithgareddau pontio, gan adeiladu ar gysylltiadau a sefydlwyd gydag ysgolion cynradd yn ystod y Prosiect; datblygu gwersi fideo wedi'u recordio ymlaen llaw a darparu sesiynau cymorth un-i-un i ddysgwyr. Dywedodd athrawon fod addysgu o bell yn gofyn am 'set wahanol o sgiliau i'r rhai a adeiladwyd yn ystod ystafell ddosbarth ffisegol, arferol'.

Effeithiau ar gynlluniau at y dyfodol a chyfleoedd gwaith

- 3.25 Mynegodd pob un o'r pedwar athro a gyfwelwyd bryder am effaith y pandemig coronafeirws ar eu rhagolygon gwaith yn y tymor byr a canolig. Nododd athrawon mai ychydig iawn o swyddi oedd yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nododd athrawon ychwanegol fod y sefyllfa wedi peri iddynt deimlo'n ansicr ynglŷn â'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Roeddent yn cydnabod y byddai'r pandemig yn cael effaith sylweddol ar eu 'gallu i geisio am swyddi parhaol o fis Medi'. Roedd athrawon ychwanegol a oedd wedi cyfeirio at y budd a gawsant o fod yn rhan o'r Prosiect – yn benodol trwy gynnig llwyfan iddynt geisio sicrhau swyddi sefydlog – yn teimlo y gallai'r ansicrwydd eu gorfodi i gymryd cam yn ôl.

"I sawl un ohonom ni (athrawon ychwanegol) gwaith cyflenwi arferol fydd yr unig beth fydd gennym ni i gwympto nol arno ac mae hyn wedi peri cryn bryder i ni. Nid yn unig hyn, ond rwyf wedi bod yn dysgu ers 5 mlynedd ac roeddwn

yn edrych tuag at hyn fel moment arwyddocaol er mwyn sicrhau fy nyfodol fel athro mewn swydd barhaol.” (Cyfweliad gydag athro ychwanegol) [Cyfieithiad o sylw yn Saesneg yn wreiddiol]

- 3.26 Roedd yr athrawon a gyfwelwyd wedi myfyrio ar y profiadau cadarnhaol a gawsant yn ystod y Prosiect. Cyfeiriodd rhai at y ffaith eu bod eisoes wedi arddangos y gallu i weithio'n hyblyg ac i ymateb i anghenion gwahanol ysgolion, gan weithio mewn gwahanol leoliadau a dod â sgiliau amrywiol a throsglwyddadwy i'r gweithle.

Effeithlonrwydd ac arbedion cost

Canfyddiadau allweddol

- Roedd £2.7 miliwn o gyllid grant ar gael ar gyfer y Prosiect, gyda £1.75 miliwn wedi'i hawlio (rhwng Tachwedd 2017 ac Awst 2019).
- Mae athrawon a gyflogwyd drwy'r Prosiect wedi cyflenwi ychydig yn llai na 30 y cant o'r holl absenoldebau ar draws clystyrau oedd yn cymryd rhan: 29,837 oedd cyfanswm y diwrnodau lle roedd angen cyflenwi mewn ysgolion clwstwr, gyda 8,774 o'r diwrnodau hyn wedi'u cyflenwi gan athrawon ychwanegol.

- 3.27 Mae data allbwn terfynol yn dangos fod £1.75m wedi'i hawlio o'r £2.7m o arian grant a oedd ar gael i gefnogi'r Prosiect. Dengys hyn mai dwy ran o dair o'r grant oedd ar gael a hawliwyd yn derfynol. Yn rhannol, mae hyn yn ganlyniad i'r ffaith bod y rhan fwyaf o glystyrau wedi cychwyn y Prosiect yn ystod ail dymor y flwyddyn gyntaf (gyda rhai yn dechrau'n hwyrach na hyn). Cafodd clystyrau hefyd anawsterau wrth recriwtio athrawon ychwanegol mewn rhai ardaloedd, a gafodd effaith hefyd ar y cyllid grant a hawliwyd.
- 3.28 Mae Tabl 3.3 yn cynnig trosolwg o gostau'r Prosiect a'r ddarpariaeth gyflenwi ar gyfer yr elfen o'r Prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru (Tachwedd 2017-Awst 2019). Mae hyn yn galluogi cymhariaeth rhwng cyfanswm grant Llywodraeth Cymru a hawliwyd gan glystyrau yn ystod y Prosiect ac amcangyfrif o gost defnyddio asiantaethau ar gyfer yr absenoldebau a gyflenwyd gan athrawon ychwanegol. Mae'r data yn dangos bod yr arian grant a hawliwyd rhwng £302,000 a £539,000 yn uwch na'r gost amcangyfrifedig o ddefnyddio asiantaethau cyflenwi allanol. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn cynnig y darlun llawn o ran y ffordd y neilltuwyd athrawon ychwanegol yn ystod y Prosiect. Er enghraifft, roedd cyfanswm dyddiau

absenoldeb un clwstwr ar goll ar gyfer y cyfnod hawlio terfynol (Ebrill – Medi 2019). Oherwydd amrywiadau yn nehongliad y clystyrau o'r data a oedd yn ofynnol, roedd rhai anghysondebau. Parhaodd rhai clystyrau i ddefnyddio trefniadau cyflenwi mewnol presennol yn ystod y Prosiect. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi bod costau gorbenion eraill wedi'u cynnwys yn y grant, megis amser nad yw'n gyfnod addysgu sy'n gysylltiedig â chyflogi athrawon.

Tabl 3.3: Trosolwg o'r gymhariaeth gost o gyflenwi

Cyfanswm y grant ar gael	£2,700,000
Swm a hawliwyd (Tach 2017-Awst 2019)	£1,749,825.08
Cyfanswm y diwrnodau absenoldeb a oedd angen cyflenwi	29,837 ⁵
Diwrnodau a gyflenwir gan athrawon ychwanegol	8,774 ⁶
Amcangyfrif o'r gost o ddefnyddio asiantaethau cyflenwi i dalu am yr absenoldebau a gyflenwyd gan athrawon ychwanegol	£1,210,812 – £1,447,710 ⁷

3.29 Yn olaf, byddai'r tîm gwerthuso yn gochel rhag dod i gasgliadau ar gost a budd y Prosiect ar sail y data a nodir yn Nhabl 3.3 yn unig. Wrth archwilio'r cwestiwn o gostau a manteision sy'n gysylltiedig â'r Prosiect, mae'n rhaid ystyried y data uchod yng nghyd-destun y canlyniadau ehangach a nodir gan ysgolion ac athrawon ychwanegol, gan gynnwys:

- gwelliannau o ran effeithlonrwydd dysgu ac addysgu na ellir eu mesur yn hawdd (buddsoddiadau yn ansawdd y gweithlu addysgu cyflenwi; mwy o gapasiti i gefnogi grwpiau targed, gan gynnwys dysgwyr ag ADY sydd, o ganlyniad, wedi cael eu cadw mewn addysg brif ffrwd);

⁵ Data ar goll ar gyfer un clwstwr ar gyfer y cyfnod hawlio terfynol (Ebrill-Awst 2019).

⁶ Er mwyn cyfrif am y data coll o un clwstwr ar gyfer y cyfnod hawlio terfynol, mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyfanswm y diwrnodau a gyflenwyd gan athrawon ychwanegol yn ystod y cyfnod hawlio cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol.

⁷ Mae'r ffigur is yn seiliedig ar y clystyrau cyfradd dydd ar gyfartaledd a delir am athrawon asiantaeth gyflenwi, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir ar ffurflenni hawlio'r Prosiect - £138. Mae'r ffigur uwch yn seiliedig ar gyfradd Llywodraeth Cymru talwyd i ryddhau athrawon ar gyfer Cynllun Sabothol Cymraeg, rhaglen hyfforddi athrawon genedlaethol ar gyfer Cymraeg - £165.

- manteision cysylltiedig i ddysgwyr drwy gynnydd yn ansawdd yr addysgu gan athrawon cyflenwi yn sgil y Prosiect, gan gynnwys gwelliannau i ymddygiad dysgwyr;
- gwerth ychwanegol i ysgolion clwstwr drwy eu galluogi i ryddhau staff i fynychu cyfleoedd datblygu proffesiynol neu i weithio ar flaenoriaethau gwella ysgolion;
- effeithiau cadarnhaol a gofnodwyd mewn perthynas â llwyth gwaith athrawon a morâl;
- gwell cydweithio rhwng ysgolion, gan gynnwys cydweithio er mwyn cefnogi trefniadau pontio effeithiol;
- gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r addysgu a'r dysgu sydd eu hangen er mwyn i ddysgwyr bontio'n effeithiol rhwng cyfnodau allweddol.

3.30 Heb y Prosiect, byddai angen cyllid ychwanegol er mwyn cefnogi'r deilliannau hyn, a gafodd eu hadrodd yn eang gan ysgolion a gymerodd rhan yn y Prosiect, fel y mae'r adroddiad gwerthuso llawn yn nodi.⁸

⁸ Duggan, B., Glover, A., Grover, T. Feehan, A. (2019). [*Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion*](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 50/2019.

4. Casgliadau

- 4.1 Nid yw canfyddiadau'r adroddiad dilynol hwn - ynddynt eu hunain - yn arwain y tîm gwerthuso i gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r casgliadau a'r argymhellion a nodwyd yn y prif adroddiad gwerthuso, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019. Fodd bynnag, ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, mae ysgolion, athrawon a dysgwyr wedi wynebu newidiadau dwys a digynsail o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r penderfyniad i gau ysgolion dros dro. Er bod cynlluniau ar waith i gefnogi dychweliad graddol i ddysgwyr i'r ysgol, mae'n debygol y bydd ysgolion yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol am gryn amser i ddod, fydd yn anrffod yn effeithio ar drefniadau cynllunio'r gweithlu. Amser a ddengys sut y bydd hyn yn effeithio ar yr angen fydd gan ysgolion am athrawon cyflenwi yn y tymor byr a'r tymor canolig a'r dulliau o reoli'r anghenion hyn.
- 4.2 O ystyried yr ansicrwydd parhaus hwn, nid ydym wedi ail-werthuso'r casgliadau a'r argymhellion a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019 yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol sy'n wynebu ysgolion. Yn hytrach, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad byr a sylwebaeth ar ddata allbwn terfynol y Prosiect, ynghyd â gwybodaeth am gynlluniau yr ysgolion clwstwr ac athrawon fu'n rhan o'r Prosiect. Cyflwynir y rhain isod ochr yn ochr â chanfyddiadau allweddol yr adroddiad gwerthuso llawn.
- 4.3 **Llwyddodd y Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion i alluogi ysgolion i weithio gyda'i gilydd i ddylunio a gweithredu ystod o drefniadau arloesol i fynd i'r afael ag absenoldeb athrawon.** Rheolwyd y Prosiect mewn ffordd hyblyg gan ysgolion, gan ddyfeisio gwahanol ddulliau o reoli ac amserlennu'r athrawon ychwanegol a gyflogwyd. Defnyddiwyd athrawon ychwanegol i fynd i'r afael ag ystod o dasgau, gan gynnwys cyflenwi brys; cyflenwi yn ystod cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon; cefnogi ystod o brosiectau ar draws y clwstwr; trefnu gwersi dosbarth/pwnc rheolaidd a chynnal gwaith pontio.
- 4.4 **Mae'r Prosiect peilot wedi cefnogi ystod o gyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon ychwanegol,** gan ddarparu hyfforddiant i fynd i'r afael â gofynion athrawon unigol a thargedau datblygu ysgolion. Roedd athrawon ychwanegol hefyd wedi elwa drwy ddatblygu eu sgiliau, eu cymhwysedd a'u hyder, yn enwedig o ganlyniad i'r profiad o addysgu ar draws gwahanol gyfnodau addysg mewn ystod o ysgolion. Roeddent hefyd yn gadarnhaol ynghylch y cyflog a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r rôl, ac yn croesawu cydnabyddiaeth o'u statws proffesiynol.

Cefnogodd y Prosiect lawer o athrawon ychwanegol i gwblhau eu cyfnod ymsefydlu ANG yn llwyddiannus.

- 4.5 **Yn ogystal, cefnogodd y Prosiect peilot sawl athro i sicrhau cyflogaeth barhaol** yn ystod y cyfnod pan oeddent yn cyflawni'r rôl ychwanegol, ac roedd rhai yn awyddus i barhau i weithio yn eu rôl bresennol neu o fewn un o'u hysgolion clwstwr. Roeddent o'r farn eu bod mewn gwell sefyllfa i ymgeisio am y swyddi hyn, o ganlyniad i'r Prosiect. Canfu prif gam y gwerthusiad fod athrawon ychwanegol wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach, gan eu rhoi mewn sefyllfa gryfach i ymgeisio am swyddi yn eu clystyrau. Dengys yr ymchwil ddilynol bod 11 allan o'r 12 athro ychwanegol a ymatebodd i'r arolwg wedi cael eu cyflogi ers mis Medi 2019 naill ai fel athrawon ychwanegol yn eu clystyrau gwreiddiol neu mewn swyddi addysgu eraill o fewn neu y tu allan i'r clwstwr. Fodd bynnag, canfu cyfweiliadau pellach â sampl fach o athrawon ychwanegol a gefnogwyd trwy'r Prosiect fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar eu rhagolygon o ddod o hyd i swyddi parhaol o fis Medi 2020.
- 4.6 Mae data allbwn terfynol yn dangos fod **£1.75m wedi'i hawlio o'r £2.7m o arian grant a oedd ar gael i gefnogi'r Prosiect**. Cyfanswm y diwrnodau absenoldeb yr oedd angen eu cyflenwi ar draws yr holl glystyrau yn ystod y Prosiect oedd 29,837. O'r rhain, cyflenwyd 8,774 diwrnod gan athrawon ychwanegol a gefnogwyd trwy'r Prosiect. **Amcangyfrifir bod cost defnyddio asiantaethau cyflenwi allanol i dalu am yr absenoldebau a gwmpesir gan ddiwrnodau ychwanegol y Prosiect yn is na chostau'r Prosiect**, fodd bynnag cyfeiriodd ysgolion ac athrawon ychwanegol at ganlyniadau cadarnhaol eang a ddeilliodd o'r Prosiect. Mae angen ystyried y canlyniadau ychwanegol hyn ochr yn ochr â'r amcangyfrif o werth y cyflenwad a gyflenwyd gan athrawon ychwanegol yn ystod oes y Prosiect.
- 4.7 Dangosodd y data a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad bod traean o'r clystyrau yn parhau neu'n cynllunio i gynnal elfennau o'u Prosiect yn y drydedd flwyddyn. **Canfu ymchwil ddilynol gyda naw arweinydd clwstwr fod dau wedi parhau yn ystod y drydedd flwyddyn**. I'r rhai nad oeddent wedi cynnal y dull clwstwr, cyfeiriwyd at rwystrau ariannol fel y prif reswm dros beidio â pharhau. Mae hyn yn gyson â'r mater a godwyd yn y prif adroddiad gwerthuso, sef bod y costau uwch o gyflogi athrawon ychwanegol parhaol mewn swydd gyflogedig (o'i gymharu â chostau *ad hoc* recriwtio athrawon cyflenwi) yn arwain at ysgolion yn dewis camu i ffwrdd o'r

Prosiect er eu bod yn cydnabod y gwerth a buddion model o safbwynt cefnogi addysgu a dysgu.

- 4.8 **Yn dilyn y cyswllt dilynol a gafwyd gyda'r clystyrau hynny a oedd wedi parhau i'r drydedd flwyddyn, gwelwyd effeithiau cadarnhaol ar addysgu, rhannu arfer da rhwng ysgolion a chefnogi ymddygiad disgyblion.** I'r gwrthwyneb, nododd y clystyrau hynny nad oeddent wedi parhau effeithiau negyddol ar lwyth gwaith a lles staff o ganlyniad i beidio â chael mynediad at y gefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd yn flaenorol gan athrawon ychwanegol.
- 4.9 Un gwaddol pwysig o'r Prosiect a adroddwyd gan ysgolion a gymerodd ran oedd bod **yr arfer gweithio cydweithredol a sefydlwyd neu a gryfhawyd yn ystod y Prosiect wedi parhau rhwng ysgolion clwstwr**, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn cynnal dulliau seiliedig ar glwstwr o reoli cyflenwad cyflenwi.
- 4.10 **Roedd bron pob athro ychwanegol a roddodd adborth yn ystod ymchwil ddilynol yn teimlo y bu effaith gadarnhaol ar eu hyder, eu harfer addysgu a'u cyfleoedd dysgu proffesiynol** trwy gymryd rhan yn y Prosiect. Nododd wyth athro ychwanegol ffyrdd eraill y cafodd y Prosiect effaith gan gynnwys: gwelliannau mewn lles personol; profiad a pharodrwydd i weithio ar draws gwahanol leoliadau; perthnasoedd da gyda chydweithwyr; mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dod o hyd i'r ysgol sy'n addas iddynt; a chyfleoedd dysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc.
- 4.11 Daeth y prif adroddiad gwerthuso i'r casgliad bod digon o dystiolaeth o ganlyniadau llwyddiannus o'r Prosiect i Lywodraeth Cymru ystyried cefnogi ail gam y Prosiect Clwstwr Cyflenwi yn yr Ysgol, gan nodi cyfres o bwyntiau dysgu wrth gynllunio a dylunio Prosiect dilynol. Er bod y casgliad hwn yn dal i sefyll, wrth reswm nid yw hyn yn debygol o ddigwydd yn y tymor byr, oherwydd pandemig COVID-19 a'i effaith ar ysgolion. Serch hynny, mae sawl canfyddiad amlwg sy'n haeddu sylw pellach ar adeg pan fydd ysgolion yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol, o leiaf am gryn amser i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:
- **Pwysigrwydd gweithlu hyblyg:** canfu'r gwerthusiad fod ysgolion yn gweld gwerth mewn athrawon ychwanegol a oedd yn gallu gweithio ar draws cyfnodau, gan gwmpasu'r Cyfnod Sylfaen, Camau Allweddol 2 a 3. Canfu ysgolion a chlystyrau fod yr hyblygrwydd hwn yn eu galluogi a'u hannog i gynllunio yn fwy strategol ar draws cyfnodau, gan arwain at fuddion i addysgu a dysgu. Roedd ysgolion yn cydnabod bod hyn yn eu galluogi i

gynllunio defnydd y capasiti ychwanegol hwn mewn ffordd strategol, gan gefnogi gweithgareddau ar lefel ysgol-gyfan i gefnogi gwelliannau a blaenoriaethau ehangach.

- **Cafodd hyn hefyd effaith gadarnhaol ar drefniadau pontio i ysgolion a dysgwyr.** Mae'r Prosiect wedi galluogi cydweithredu rhwng ysgolion sydd wedi cefnogi gweithgareddau pontio rhwng ysgolion. Roedd athrawon ychwanegol a oedd yn gweithio ar draws cyfnodau wedi medru datblygu perthnasoedd tymor hwy gyda dysgwyr blwyddyn 6; adroddwyd bod cael 'wyneb cyfarwydd' a chysondeb o ran dulliau rheoli ymddygiad ac addysgu yn ffactorau pwysig wrth gefnogi pontio effeithiol i'r ysgol uwchradd.
- **Roedd cydweithio rhwng ysgolion ar drefniadau cyflenwi yn faes newydd i'r ysgolion hynny a gymerodd ran yn y Prosiect.** Mae'r Prosiect wedi annog ysgolion sy'n cymryd rhan i archwilio ffyrdd eraill y gellid rhannu capasite staffio mewn ffyrdd sydd o fudd i'r ddwy ochr. Clywodd y gwerthusiad fod yr ysgolion fu'n rhan o'r Prosiect yn ystyried ffyrdd o rannu CALU, arbenigwyr ADY ac athrawon addysg gorfforol.
- Yn olaf, tanlinellodd y Prosiect bwysigrwydd **sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso** (a allai fod mewn rolau cyflenwi tymor byr) **yn gallu elwa o weithgareddau datblygiad proffesiynol**, sy'n a gafodd effaith gadarnhaol ar ansawdd eu haddysgu.

Atodiad A: Offerynnau ymchwil

Arolwg ar-lein ar gyfer arweinwyr clwstwr (Gwanwyn 2020)

Mae Arad yn parhau i werthuso'r Prosiect Model Clwstwr Cyflenwi yn yr Ysgol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac yn dymuno casglu barn gyfredol arweinwyr clwstwr ar y Prosiect. Bydd hyn yn llywio adroddiad dilynol yn Haf 2020.

Mae'r arolwg hwn ar gyfer y ddau arweinydd clwstwr sydd wedi parhau i gyflawni'r Prosiect am y drydedd flwyddyn, a'r rhai nad ydynt yn cyflawni'r Prosiect mwyach.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn wirfoddol. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei hadrodd yn ddienw a'i chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth ar sut y byddwn yn defnyddio'ch data ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd yma.

Os ydych chi'n hapus i roi eich caniatâd, parhewch â'r arolwg trwy glicio ar y dudalen nesaf.

Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am y gwerthusiad, neu os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch ag Alison Glover ar alison@arad.wales neu 02920 440552.

Eich clwstwr

1. Dewiswch eich clwstwr o'r canlynol *
2. Faint o rolau athrawon ychwanegol oedd yn eich clwstwr yn ystod y Prosiect?
3. A yw'ch clwstwr wedi parhau â'r Prosiect ar gyfer blwyddyn 3? *

☐ Ydy

☐ Na

Cyllid blwyddyn 3

4. Sut mae trydedd flwyddyn y Prosiect yn cael ei hariannu? *

☐ Wedi'i ariannu'n rhannol

☐ Wedi'i ariannu'n llwyr

Rhowch fanylion ynglŷn â ffynhonnell y cyllid (pa gyllideb?) a'r gyfran a ariennir.

5. A fu unrhyw newidiadau yn rheolaeth a gweithrediad y Prosiect yn ystod y drydedd flwyddyn (ers Medi 2019)? *

☐ Bu newidiadau

☐ Ni fu newidiadau

Os yn briodol, esboniwch beth sydd wedi newid? E.e. mae angen i ddyraniad ysgolion, dull o amserlennu ar wahân, recriwtio athrawon ychwanegol.

Effaith

6. Nodwch unrhyw effaith rydych chi wedi'i gweld yn ystod trydedd flwyddyn y Prosiect. Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

	Effaith gadarnhaol sylweddol	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith negyddol	Effaith negyddol sylweddol
Effeithlonrwydd cost	☐	☐	☐	☐	☐
Effeithlonrwydd yn yr amser rheoli	☐	☐	☐	☐	☐
Cyflwyno addysgu effeithiol	☐	☐	☐	☐	☐
Rhannu arferion addysgu effeithiol	☐	☐	☐	☐	☐
Ymddygiad dysgwr	☐	☐	☐	☐	☐
Cyfleoedd ar gyfer hyfforddi athrawon	☐	☐	☐	☐	☐
Llwyth gwaith a lles staff	☐	☐	☐	☐	☐

Nodwch unrhyw effeithiau ychwanegol, ac unrhyw fanylion pellach.

Mynd i'r afael ag anghenion cyflenwi

7. Ydych chi'n dal i ddefnyddio dulliau cyflenwi eraill yn ogystal â'ch athro / athrawon ychwanegol? *

☐ Ydyn

☐ Nac ydyn

Diwallu anghenion cyflenwi ychwanegol

8. Sut mae'ch clwstwr yn diwallu anghenion cyflenwi ychwanegol nawr?

	Bob amser	Weithiau	Yn achlysurol	Yn anaml	Byth
Asiantaeth gyflenwi asiantaeth Fframwaith yr GCC	☐	☐	☐	☐	☐
Athrawon cyflenwi asiantaeth Fframwaith nad yw'n GCC	☐	☐	☐	☐	☐
Cynorthwywyr Dysgu Dosbarth Asiantaeth (CALU, CA, goruchwylwyr cyflenwi)	☐	☐	☐	☐	☐
Athrawon cyflenwi cyflogedig eich hun	☐	☐	☐	☐	☐
Athrawon eraill a gyflogir yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐
Cynorthwywyr dysgu ystafell ddosbarth a gyflogir yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐
Uwch reolwyr / pennaeth ysgol	☐	☐	☐	☐	☐

Tua sawl diwrnod o gyflenwad cyflenwi ychwanegol oedd ei angen yn ystod tymor yr Hydref 2019?

Prosiect ddim yn parhau ar gyfer Blwyddyn 3

9. Esboniwrch pam na pharhaodd eich clwstrwr â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn? *

10. Beth fu effaith peidio â pharhau â'r Prosiect am y drydedd flwyddyn?

	Effaith gadarnhaol sylweddol	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith negyddol	Effaith negyddol sylweddol
Effeithlonrwydd cost	☐	☐	☐	☐	☐
Effeithlonrwydd yn yr amser rheoli	☐	☐	☐	☐	☐
Addysgu effeithiol	☐	☐	☐	☐	☐
Rhannu arferion addysgu effeithiol	☐	☐	☐	☐	☐
Ymddygiad dysgwr	☐	☐	☐	☐	☐
Cyfleoedd ar gyfer hyfforddi athrawon	☐	☐	☐	☐	☐
Llwyth gwaith a lles staff	☐	☐	☐	☐	☐
Rhowch fanylion pellach					

Cyflogi athrawon ychwanegol

11. A ydych chi, neu unrhyw un o'ch ysgolion clwstrwr wedi cyflogi unrhyw un o'r athrawon ychwanegol yn y ffyrdd canlynol?

- ☐ Cyflogedig mewn rôl gyflenwi ar gyfer yr ysgol ar gytundeb tymor penodol
- ☐ Cyflogedig mewn rôl gyflenwi ar gyfer yr ysgol ar gytundeb parhaol
- ☐ Cyflogedig mewn rôl gyflenwi ar gyfer ysgol glwstrwr arall ar gytundeb tymor penodol
- ☐ Cyflogedig mewn rôl gyflenwi ar gyfer ysgol glwstrwr arall ar gytundeb parhaol
- ☐ Arall (nodwch):

12. Faint o athrawon ychwanegol ydych chi neu ysgolion clwstrwr eraill wedi'u cyflogi?

13. Sut ydych chi neu ysgolion clwstrwr eraill wedi ariannu cyflogaeth yr athro / athrawon?

Rheoli'r cyflenwad cyflenwi cyfredol

14. Sut mae'ch clwstwr yn diwallu anghenion cyflenwi nawr?

	Bob amser	Weithiau	Yn achlysurol	Yn anaml	Byth
Asiantaeth gyflenwi asiantaeth Fframwaith y GCC	☐	☐	☐	☐	☐
Asiantaeth Fframwaith nad yw'n GCC	☐	☐	☐	☐	☐
Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch (CALU)	☐	☐	☐	☐	☐
Cynorthwyr Dysgu Dosbarth Asiantaeth (CALU, CA, goruchwylwyr cyflenwi)	☐	☐	☐	☐	☐
Athrawon cyflenwi cyflogedig eich hun	☐	☐	☐	☐	☐
Athrawon eraill a gyflogir yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐
Cynorthwyr dysgu ystafell ddosbarth a gyflogir yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐
Uwch reolwyr / pennaeth ysgol	☐	☐	☐	☐	☐

Tua sawl diwrnod o gyflenwi oedd ei angen yn ystod tymor yr Hydref 2019?

15. A yw eich dull o reoli anghenion cyflenwi wedi newid o ganlyniad i'ch cyfranogiad yn y Prosiect?

☐

Ydy

☐

Nac ydy

Os gwnaethoch chi ateb 'ydy', esboniwch

Bwriadau yn y dyfodol

16. A fydd unrhyw newidiadau i reoli a darparu cyflenwi o fis Medi 2020? *

☐

Bydd

☐

Na fydd

Esboniwch eich ymateb (e.e. cyflogi athrawon mewn rôl ychwanegol neu debyg)

Myfyrdodau

17. A gyflwynwyd unrhyw arferion effeithiol yn ystod y Prosiect y mae ysgolion / y clwstwr wedi parhau i'w defnyddio? (e.e. rhannu adnoddau / staff, cynyddu gweithio clwstwr cydweithredol)

18. Darparwch unrhyw fyfyrddodau sydd gennych i wella Prosiectau clwstwr cyflenwi tebyg yn yr ysgol yn y dyfodol.

19. Os ydych am roi adborth pellach trwy gyfweiliad ffôn byr, rhwch eich manylion cyswllt isod.

Enw

Ysgol

Ebost

Rhif ffôn

Arolwg ar-lein ar gyfer athrawon ychwanegol (Gwanwyn 2020)

Mae Arad yn parhau i werthuso'r Prosiect Model Clwstwr Cyflenwi yn yr Ysgol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac yn dymuno casglu gwybodaeth am eich profiad, eich statws cyflogaeth cyfredol a'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn llywio adroddiad dilynol yn Haf 2020.

Mae'r arolwg hwn ar gyfer athrawon ychwanegol sydd wedi parhau i weithio yn eu clwstwr, a'r rhai nad ydynt bellach yn gweithio yn y clwstwr.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn wirfoddol. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei hadrodd yn ddienw a'i chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth ar sut y byddwn yn defnyddio'ch data ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd yma.

Os ydych chi'n hapus i roi eich caniatâd, parhewch â'r arolwg trwy glicio ar y dudalen nesaf.

Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am y gwerthusiad, neu os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch ag Alison Glover ar alison@arad.wales neu 02920 440552.

Amdanoch chi

1. Dewiswch eich clwstwr o'r canlynol *

2. Sawl blwyddyn wnaethoch chi weithio fel athro cymwysedig cyn eich rôl ychwanegol?

- ☐ Dim
- ☐ 1 flwyddyn
- ☐ 2 flynedd
- ☐ 3 blynedd

Am faint wnaethoch chi weithio / ydych chi wedi gweithio fel athro ychwanegol?

3. Beth fu'ch rôl ers mis Medi 2019?*

- ☐ Parhau i gael eich cyflogi yn rôl athro ychwanegol yn yr un clwstwr
- ☐ Wedi'ch cyflogi mewn rôl addysgu yn yr un clwstwr
- ☐ Wedi'ch cyflogi mewn rôl addysgu y tu allan i'r clwstwr
- ☐ Ddim yn gyflogedig
- ☐ Ddim yn gweithio mewn rôl addysgu mwyach
- ☐ Arall

Rhowch fanylion pellach (e.e. rhan-amser / amser llawn, math o gytundeb)

Sefyllfa bresennol

4. Ticiwch bopeth sy'n berthnasol

- ☐ Mae gen i gytundeb addysgu tymor penodol gydag ysgol yn y clwstwr
- ☐ Rwy'n gweithio fel athro cyflenwi gydag asiantaeth gyflenwi
- ☐ Mae gen i gytundeb addysgu parhaol gydag ysgol yn y clwstwr
- ☐ Mae gen i gytundeb addysgu parhaol yn rhywle arall
- ☐ Mae gen i gytundeb addysgu tymor penodol mewn man arall

Rhowch fanylion pellach (e.e. rôl / hyd y cytundeb)

Asiantaeth gyflenwi

Nodwch a yw'r asiantaeth gyflenwi ar y [Fframwaith Cyflenwi Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol](#)

9. Mae'r asiantaeth gyflenwi ar Fframwaith Cyflenwi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol *

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siŵr

Effaith eich profiad fel athro ychwanegol

6. Rhowch sylwadau ar eich profiad fel athro ychwanegol

Beth weithiodd yn dda?

Pa heriau wnaethoch chi eu profi?

Gwelliannau a awgrymir ar gyfer prosiectau tebyg i fynd i'r afael ag anghenion cyflenwi

7. Pa effaith gafodd eich amser fel athro ychwanegol arnoch chi a'ch gyrfa addysgu?

Dewiswch o'r canlynol.

	Effaith gadarnhaol sylweddol	Rhywfaint o effaith gadarnhaol	Dim effaith	Rhywfaint o effaith negyddol	Effaith negyddol sylweddol
Hyder	☐	☐	☐	☐	☐
Ymarfer addysgu	☐	☐	☐	☐	☐
Cyfleoedd dysgu proffesiynol (gan gynnwys anwytho)	☐	☐	☐	☐	☐
Dilyniant gyrfa a chyfleoedd	☐	☐	☐	☐	☐
Arall	☐	☐	☐	☐	☐

Esboniwch unrhyw effeithiau eraill

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

8. Beth yw eich cynlluniau o fis Medi 2020?* Byddaf yn:

- ☐ Gweithio mewn rôl addysgu tymor penodol yn yr un clwstwr
- ☐ Gweithio mewn rôl addysgu barhaol yn yr un clwstwr
- ☐ Gweithio mewn rôl addysgu tymor penodol y tu allan i'r clwstwr
- ☐ Gweithio mewn rôl addysgu barhaol y tu allan i'r clwstwr
- ☐ Gweithio fel cyflenwad dyddiol gydag asiantaeth gyflenwi
- ☐ Ddim yn cael fy nghyflogi ym maes addysg
- ☐ Ddim yn gwybod eto / Arall

Rhowch fanylion pellach (e.e. rôl, swyddogaethau)

Asiantaeth gyflenwi

Nodwch a yw'r asiantaeth gyflenwi ar y [Fframwaith Cyflenwi Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol](#)

9. Mae'r asiantaeth gyflenwi ar Fframwaith Cyflenwi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siŵr

Manylion cyswllt

10. Os ydych am roi adborth pellach trwy gyfweiliad ffôn byr, rhowch eich manylion cyswllt isod.

Enw

Ysgol

Ebost

Rhif ffôn